


TEMPEST PHOTOGRAPHY

### Archebu lluniau Tempest

Byddwch yn derbyn ffurflen archebu dydd Llun ym mag eich plentyn. Bydd modd i chi weld enghraifft bach o'r llun/iau ar y ffurflen cyn archebu. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer dewis meintiau gwahanol a thalu. Diolch

### *Tempest photography orders*

*You will receive an order form in your child's bag on Monday. You will be able to see a small example of the picture/s on the form before ordering. Follow the instructions for choosing different sizes and paying. Thank you*

---




### Traws gwlad

Hoffwn longyfarch y plant i gyd a redodd yn y rasys Traws gwlad Cylch Aberystwyth ddoe. Er gwybodaeth, mae cyfres o rasys traws gwlad gan yr Urdd ac Athletau Cymru – gweler y ddolen isod am fwy o wybodaeth (rasys nesaf – Caerdydd 9fed o Dachwedd, Y Drenewydd 16eg o Dachwedd)
Traws Gwlad Urdd - Athletau Cymru | Urdd Gobaith Cymru

### *Cross Country running*

*I would like to congratulate all the children who ran in the Aberystwyth Area Cross Country races yesterday. For your information, there is a series of cross-country races by the Urdd and Athletics Wales - see the link below for more information (next races - Cardiff 9th November, Newtown 16th November)*
Urdd - Welsh Athletics Cross Country Series | Urdd Gobaith Cymru

---

### C.Rh.A

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn yr ysgol wythnos hon. Daeth cyfnod y swyddogion presennol i ben a hoffwn ddiolch yn fawr i Siân, Rhian a Geraint am eu gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hoffwn ddiolch i Rhiannon a Sian am gytuno i fod yn ysgrifennydd a thrysorydd, ond mae dal angen cadeirydd arnom. Yn fwy na dim, hoffwn drefnu cynrychiolwyr o bob blwyddyn i helpu gyda chyfathrebu gyda gweddill y rhieni yn eich grwpiau rhieni amrywiol. **Os oes gennych ddiddordeb fod yn ddolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r rhieni ar gyfer eich dosbarth/blwyddyn yna anfonwch e-bost sydyn ataf os gwelwch yn dda.**
JamesG19@hwbcymru.net

### *P.T.A*

*The annual meeting of the Parent Teacher Association was held at the school this week. The term of the current members has come to an end and I would like to thank Siân, Rhian and Geraint for their work in recent years. I would like to thank Rhiannon and Sian for agreeing to be secretary and treasurer, but we still need a chairperson. Above all, I would like to organise representatives from each year to help with communicating messages with the rest of the parents in your various parent groups.* ***If you are interested in being a link between the school and the parents for your class or yeargroup then please send me a quick email.***
JamesG19@hwbcymru.net

---




## ASDA yn cefnogi ysgolion

Ydych chi'n siopa yn ASDA? Os felly, mae cyfle arbennig i godi arian i'r ysgol.
Mae gennym rieni sydd yn gwneud hyn yn barod – mae'n ffordd hawdd iawn o godi arian.
https://www.asda.com/cashpotforschools
Os y gwyddoch am siopau eraill sy'n cynnig pethau tebyg rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

## *ASDA for schools*

*Do you shop at ASDA? If so, there's a great opportunity to raise money for the school.*
*We have parents who are already signed up and say it's a very easy way to raise money.*
https://www.asda.com/cashpotforschools
*If you know of other shops that offer similar rewards please let us know.*

---



## Diwrnod Rhyngwladol

Cofiwch am y Diwrnod Rhyngwladol wythnos nesaf sef **dydd Gwener, Hydref 11eg** – gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn eu hastudio:

| | |
|---|---|
| Meithrin | Cymru |
| Derbyn | Yr Alban |
| Blwyddyn 1a2 | Yr Eidal |
| Blwyddyn 3a4 | Ffrainc |
| Blwyddyn 5 | Yr Ariannin |
| Blwyddyn 6 | India |

## *International Day*

*A reminder that International Day will be next week on Friday, October 11th - pupils are invited to come to school in costumes that represent the country they will be learning about:*

| | |
|---|---|
| Nursery | Wales |
| Reception | Scotland |
| Years 1&2 | Italy |
| Years 3&4 | France |
| Year 5 | Argentina |
| Year 6 | India |

---




## Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd ar ddiwrnod Shwmae Su'mae

Byddwn yn dathlu diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd ar yr un diwrnod â Shwmae Su'mae eleni, sef dydd Mawrth y $15^{fed}$ o Hydref. Ar y diwrnod gall y plant ddewis:

- gwisgo mewn lliwiau coch, gwyn neu wyrdd *neu*
- gwisgo fel arwr/arwres Cymreig

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 y plentyn tuag at Gylch Ystwyth yr Urdd

## *Coch, Gwyn a Gwyrdd and Shwmae Su'mae Day*

*We will celebrate the Urdd's Red, White and Green day on the same day as Shwmae Su'mae this year, which is Tuesday the 15th of October. On the day the children can choose to :*

- *wear red, white or green coluors or*
- *dress as a Welsh hero/heroine*

*We kindly ask for a donation of £1 per child towards the Urdd's Ystwyth Area*

---


## Ymaelodi gyda'r Urdd

Dyma rannu'r ddolen ar gyfer ymaelodi gyda'r Urdd unwaith eto: Ymuno | Urdd Gobaith Cymru Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn. Mae gostyngiad ariannol ar gyfer ymaelodi teulu, a £1 y plentyn ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau.

## *Urdd Membership*

*Here is the link to join the Urdd* Join | Urdd Gobaith Cymru *By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd and take part in sports and eisteddfod activities during the year. There is a discount for family membership, and £1 per child for families receiving various income support*

---



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

- Sylwch fod diwrnod ola'r hanner tymor hwn yn ddiwrnod H.M.S ar gyfer hyfforddi staff. (Hydref 25ain)

## *Half Term Calendar*

*Here is the link to the* Half Term Calendar *for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

- *Please note that the last day of this half term is an I.N.S.E.T day for staff training. (October $25^{th}$)*

### Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

- Cynhelir y Gyngerdd Nadolig eleni ar nos Iau y 12fed o Ragfyr yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau.
- Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener yr 20fed o Ragfyr 2024.

### *Important dates next half term*

- *This year's Christmas Concert will be held on Thursday 12th December in the Great Hall at the Arts Centre.*
- *The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 20th of December 2024.*

---

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**04/10/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru




< Mae'r ysgol yn falch i gefnogi Cylch Meithrin Aberystwyth ar gyfer y digwyddiad hwn. Dewch yn llu!

*< The school is proud to support Cylch Meithrin Aberystwyth for this event. Come and join in!*


Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
@YrYsgolGymraeg
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
01970 617613
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James